


Briff Ymchwil

# Cyfres Cynllunio: 10 – Asesu Effeithiau Amgylcheddol

Awdur: **Katy Orford ac Elfyn Henderson**

Dyddiad: **Gorffennaf 2017**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Katy Orford ac Elfyn Henderson**
Dyddiad: **Gorffennaf 2017**
Rhif Papur: **17-016**
Llun: flickr gan Welsh photographs. Dan drwydded Creative Commons.

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**: 0300 200 7174**
**: Katy.Orford@Cynulliad.Cymru**
**: 0300 200 6317**
**: Elfyn Henderson@Cynulliad.Cymru**
**: Cynulliad.Cymru/Pigion**
**: @SeneddYmchwil**
**: Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Cyfres Cynllunio: 10 – Asesu Effeithiau Amgylcheddol

Mae'r hysbysiad hwylus hwn yn rhoi trosolwg o'r Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA). Mae asesiad effaith amgylcheddol yn weithdrefn sy'n sicrhau y caiff goblygiadau amgylcheddol penderfyniadau cynllunio eu hystyried cyn gwneud y penderfyniadau hynny. Mae'r papur hwn yn amlinellu beth yw'r Asesiadau, pryd y byddant yn ofynnol, beth sy'n digwydd i geisiadau cynllunio nad oes ganddynt Ddatganiad Amgylcheddol, yr hyn y mae'n ofynnol i Asesiadau Effaith Amgylcheddol eu cynnwys, Datganiadau Amgylcheddol a sut y cânt eu hystyried a'r diwygiadau i'r Gyfarwyddeb arnynt.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. Beth yw Asesiad Effaith Amgylcheddol? ..... 1
2. Pryd y bydd angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol? ..... 1
   Gweithdrefnau ar gyfer penderfynu a oes angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol ..... 1
3. Beth yw Sgrinio? ..... 2
4. Beth sy'n digwydd i geisiadau cynllunio nad oes Datganiad Amgylcheddol i gyd-fynd â hwy? ..... 2
5. Beth yw'r gofynion o ran Asesiad Effaith Amgylcheddol a pham? ..... 3
6. Ym mha fodd y caiff y Datganiad Amgylcheddol ei ystyried? ..... 4
7. Diwygiadau'r Comisiwn Ewropeaidd i'r Gyfarwyddeb ..... 4
8. Ffynonellau allweddol ..... 5
   Llywodraeth Cymru ..... 5
   Cymorth Cynllunio Cymru ..... 5
   Y Porth Cynllunio ..... 5
   Y Gwasanaeth Ymchwil ..... 5

# 1. Beth yw Asesiad Effaith Amgylcheddol?

Mae asesiad amgylcheddol yn weithdrefn sy'n sicrhau y caiff goblygiadau amgylcheddol penderfyniadau cynllunio eu hystyried cyn gwneud y penderfyniadau hynny. Gelwir asesiadau amgylcheddol ar gyfer prosiectau unigol, fel argaeau, traffyrdd, meysydd awyr neu ffatrïoedd yn Asesiadau Effaith Amgylcheddol. Mae'r asesiadau hyn yn asesu'r effaith, boed honno'n effaith gadarnhaol neu negyddol, y gallai prosiect arfaethedig ei chael ar yr amgylchedd. Anfonir y wybodaeth hon at yr **awdurdod cynllunio lleol** neu Lywodraeth Cymru ar ffurf **Datganiad Amgylcheddol,** er mwyn ei ystyried ochr yn ochr â chais cynllunio.

# 2. Pryd y bydd angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol?

Rhaid paratoi Asesiad Effaith Amgylcheddol ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau i gydymffurfio â'r **Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2011/92/EU** a elwir hefyd yn Gyfarwyddeb Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol. Disodlwyd *Cyfarwyddeb 2011/92 /EU* gan ***Gyfarwyddeb 2014/52/UE*** ac roedd yn rhaid i aelod-wladwriaethau gymhwyso'r rheolau hyn o 16 Mai 2017 ymlaen fan bellaf (gweler yr adran ar "ddiwygiadau'r Comisiwn Ewropeaidd i'r Gyfarwyddeb"). Mae'r gofyniad i gynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol yng nghyswllt cynigion cynllunio penodol wedi'i nodi yn Adran 71A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac mae **Rheoladiadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017** (Rheoliadau 2017) yn rhoi Cyfarwyddeb 2014/52/EU ar waith yng Nghymru.

Mae rheoliadau gwahanol yn berthnasol i brosiectau a allai wneud asesiad yn ofynnol yn unol â'r Gyfarwyddeb, ond sydd wedi'u heithrio o'r system cynllunio gwlad a thref yng Nghymru. Er enghraifft, gwaith draenio tir, gwaith coedwigaeth a ffermio pysgod morol.

Yn gyffredinol bydd angen AEA ar gyfer prosiectau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd yn rhinwedd eu natur, eu maint neu'u lleoliad. Mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn orfodol ar gyfer mathau o ddatblygiadau mawr a restrir yn Atodlen 1 i Reoliadau 2017 (a elwir yn ddatblygiadau Atodlen 1), ac mae trosolwg o'r datblygiadau hyn i'w weld yn yr Atodiad ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae Atodlen 2 yn disgrifio'r datblygiadau eraill y bydd angen cynnal Asesiad o'u Heffaith Amgylcheddol os bydd meini prawf penodol wedi'u bodloni a throthwyau penodol wedi'u cyrraedd.

Mae newidiadau neu estyniadau i ddatblygiadau Atodlen 1 neu Atodlen 2, a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar yr amgylchedd, hefyd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas Rheoliadau 2017.

### Gweithdrefnau ar gyfer penderfynu a oes angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol

Gellir gwneud y penderfyniad ynghylch a oes angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol ar ddatblygiad arfaethedig yn ystod nifer o gamau gwahanol:

- Gall datblygwr benderfynu bod angen Asesiad Effaith Amgylcheddol a bydd yn cyflwyno Datganiad Amgylcheddol gyda'r cais cynllunio;
- Gall datblygwr ofyn am farn sgrinio (y rhoddir manylion yn ei gylch yn ddiweddarach) gan yr awdurdod cynllunio lleol, cyn cyflwyno cais cynllunio o gwbl;

- Gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu bod angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol ar ôl cael cais cynllunio;
- Gall Gweinidogion Cymru hefyd benderfynu bod angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol ar gyfer cais a alwyd i mewn ar gyfer penderfyniad ganddynt neu sydd ger eu bron ar apêl; neu
- Gall Gweinidogion Cymru roi gorchymyn bod angen Asesiad Effaith Amgylcheddol ar unrhyw adeg cyn rhoi caniatâd i ddatblygiad penodol.

Os bydd yr angen am gynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol yn dod i'r amlwg dim ond ar ôl cyflwyno'r cais cynllunio, bydd y gwaith o ystyried y cais yn cael ei atal dros dro nes bydd Datganiad Amgylcheddol wedi'i gyflwyno.

# 3. Beth yw Sgrinio?

Gelwir y penderfyniad gan yr awdurdod cynllunio lleol ynghylch a oes angen cynnal Asesiad o Effaith Amgylcheddol datblygiad ai peidio yn 'farn sgrinio', a gellir ymgymryd â hi cyn cyflwyno cais cynllunio neu ar ôl ei gyflwyno. Gall datblygwyr sy'n ansicr ynghylch a oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ofyn am farn sgrinio gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn cyflwyno ei gais cynllunio. Dylai'r cais hwn gynnwys cynllun sy'n nodi lleoliad arfaethedig y datblygiad, a disgrifiad byr o natur y cynnig, ei ddiben, a'i effeithiau amgylcheddol posibl, gan roi syniad bras ynghylch graddfa debygol yr effeithiau hynny.

Wrth gael y cais, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried a yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd o ystyried ffactorau fel natur, maint neu leoliad y datblygiad, a'r meini prawf dewis yn Atodlen 3 i Reoliadau 2017. Mae Atodlen 3 yn nodi tri maen prawf bras y dylid eu hystyried:

- Nodweddion y datblygiad (maint, dyluniad, defnydd o adnoddau naturiol, faint o lygredd, gwastraff a gynhyrchir, risg o ddamweiniau a risg i iechyd pobl);
- Sensitifrwydd amgylcheddol y lleoliad; a
- Mathau a nodweddion ei effeithiau posibl (maint a pharhad y cyfnod).

Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol fabwysiadu ei farn sgrinio o fewn tair wythnos i dderbyn cais. Rhaid sicrhau bod copïau o'r dogfennau perthnasol ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am ddwy flynedd yn y fan lle y cedwir y gofrestr gynllunio (mae gan bob awdurdod cynllunio lleol gofrestr cynllunio) neu dylid eu trosglwyddo i Ran 1 o'r gofrestr (Rhan 1: ffurflenni cais cynllunio, cynlluniau a gwybodaeth sy'n eu cefnogi) os cyflwynir cais cynllunio ar gyfer y datblygiad yn dilyn hynny.

Gall datblygwyr gyflwyno apêl i Weinidogion Cymru am 'gyfarwyddyd sgrinio' os byddant yn anghytuno â phenderfyniad awdurdod cynllunio lleol i fabwysiadu barn sgrinio bod cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol, neu os na fydd awdurdod yn mabwysiadu barn o fewn y cyfnod penodedig.

# 4. Beth sy'n digwydd i geisiadau cynllunio nad oes Datganiad Amgylcheddol i gyd-fynd â hwy?

Os caiff awdurdod cynllunio lleol gais cynllunio ar gyfer datblygiad yr ymddengys ei fod yn ddatblygiad Atodlen 1 neu Atodlen 2 nad oes ganddo Ddatganiad Amgylcheddol i gyd-fynd ag ef, rhaid iddo wirio yn gyntaf a oes barn sgrinio wedi'i mabwysiadu ganddo. Os nad oes barn sgrinio'n bod, rhaid i'r

awdurdod cynllunio lleol fabwysiadu "barn" sy'n egluro a yw'n ofynnol i gynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol ai peidio:

- Os **nad oes** angen Asesiad Effaith Amgylcheddol, dylid mabwysiadu barn sgrinio yn egluro hyn, a'i gosod ar Ran 1 y gofrestr gynllunio gyda'r cais cynllunio; neu
- **Os oes** angen Asesiad Effaith Amgylcheddol, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi hysbysiad i'r ymgeisydd, gan roi'r rhesymau llawn dros ei farn, ac yna rhaid gosod copi o'r hysbysiad ar Ran 1 y gofrestr gynllunio.

Os yw ymgeisydd am barhau â'r cais, rhaid iddo ateb o fewn tair wythnos. Dylai'r ateb hwnnw nodi bwriad yr ymgeisydd naill ai i ddarparu Datganiad Amgylcheddol neu i ofyn i Weinidogion Cymru am gyfarwyddyd ynghylch sgrinio, ac, os digwydd hynny, dylai'r awdurdod cynllunio lleol atal ei ystyriaeth o'r cais cynllunio dros dro. Os nad yw'r ymgeisydd yn ateb o fewn tair wythnos, bydd y cais yn cael ei ystyried yn gais sydd wedi'i wrthod. Ni fyddai'n bosibl apelio gerbron Gweinidogion Cymru yn erbyn gwrthodiad o'r fath.

# 5. Beth yw'r gofynion o ran Asesiad Effaith Amgylcheddol a pham?

Pan fydd angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol, rhaid i'r datblygwr lunio gwybodaeth fanwl ynghylch prif effeithiau amgylcheddol posibl prosiect. Mae Atodlen 4 i Reoliadau 2017 yn nodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol. Mae'n cynnwys:

- Disgrifiad o'r datblygiad sy'n cynnwys;
  - disgrifiad o nodweddion ffisegol y datblygiad cyfan;
  - disgrifiad o brif nodweddion cam gweithredol y datblygiad (unrhyw broses gynhyrchu yn arbennig);
  - amcangyfrif, yn ôl math a maint, o'r gwaddodion a'r allyriadau disgwyliedig;
- disgrifiad o'r dewisiadau amgen rhesymol (er enghraifft, o ran cynllun datblygu, technoleg, lleoliad, maint a graddfa);
- disgrifiad o agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd (senario gwaelodlin);
- disgrifiad o'r ffactorau a bennir yn rheoliad 4(2) y mae'n debygol y bydd y datblygiad yn effeithio'n sylweddol arnynt: poblogaeth, iechyd dynol, bioamrywiaeth, tir, pridd, dŵr, aer, hinsawdd, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys agweddau pensaernïol ac archeolegol, a thirwedd;
- disgrifiad o effeithiau sylweddol tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd o ganlyniad, er enghraifft, i'r defnydd o adnoddau naturiol, allyrru llygryddion a'r peryglon i iechyd dynol;
- disgrifiad o'r dulliau darogan neu'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i nodi ac asesu'r effeithiau ar yr amgylchedd;
- disgrifiad o'r mesurau a ragwelir i osgoi, atal, lleihau, neu, os yw'n bosibl, i wrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol sylweddol a nodwyd ar yr amgylchedd;

- disgrifiad o'r effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd y'u disgwylir yn sgîl y datblygiad, a allai ddeillio o risgiau o ddamweiniau a / neu drychinebau mawr sy'n berthnasol i'r prosiect dan sylw;
- crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth uchod; a
- rhestr gyfeirio yn manylu ar y ffynonellau a ddefnyddiwyd yn y Datganiad Amgylcheddol.

I gynorthwyo'r datblygwr, mae'r ***Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004*** (S.I. 2004/3391) yn rhoi hawl i'r cyhoedd weld gwybodaeth amgylcheddol a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus.

Mae Rheoliadau 2004 yn gwneud hyn mewn dwy ffordd:

- rhaid i awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod gwybodaeth amgylcheddol ar gael yn rhagweithiol; ac
- mae gan y cyhoedd hawl i wneud cais am wybodaeth amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus.

Dylai datblygwyr gael barn ffurfiol gan yr awdurdod cynllunio lleol ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol (barn gwmpasu). Mae hyn yn galluogi'r datblygwr i wybod yn union yr hyn y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn ei ystyried fydd prif effeithiau tebygol y datblygiad, ac felly, y pynciau y dylai'r Datganiad Amgylcheddol ganolbwyntio arnynt.

Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol anfon y cais cynllunio a'r Datganiad Amgylcheddol at Weinidogion Cymru, ac anfon y cais at unrhyw gorff ymgynghori na chafodd gopi yn uniongyrchol gan yr ymgeisydd. Rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r Datganiad Amgylcheddol a'r cais cynllunio, a rhaid rhoi cyfle i gyrff cyhoeddus perthnasol a'r cyhoedd gyflwyno eu safbwyntiau am y cais.

# 6. Ym mha fodd y caiff y Datganiad Amgylcheddol ei ystyried?

Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol 16 wythnos ar ôl iddo gael y Datganiad Amgylcheddol i benderfynu ynghylch y cais cynllunio, yn hytrach nag wyth wythnos ar ôl cael y cais cynllunio, fel sy'n arferol. Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ofyn barn y cyrff ymgynghori, sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Gweinidogion Cymru. Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru ystyried y Datganiad Amgylcheddol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth neu farn arall yn ei gylch neu sylwadau a wnaed arno, wrth benderfynu a yw am roi caniatâd i'r datblygiad ai peidio. Os bydd Datganiad Amgylcheddol yn datgelu y byddai datblygiad yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd, nid yw'n dilyn o anghenraid y gwrthodir y cais cynllunio. Os rhoddir caniatâd, mae'n bosibl y gosodir amodau i gyd-fynd ag ef, sy'n cynnwys camau lliniaru y gellir eu seilio ar y Datganiad Amgylcheddol.

Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi gwybod i'r cyhoedd a Gweinidogion Cymru am ganlyniad y broses o wneud ei benderfyniad, a rhoi'r prif resymau dros wneud y penderfyniad. Os na wneir y penderfyniad o fewn 16 wythnos, gall yr ymgeisydd gyflwyno apêl i Weinidogion Cymru ynghylch diffyg penderfyniad.

# 7. Diwygiadau'r Comisiwn Ewropeaidd i'r Gyfarwyddeb

A hithau wedi'i mabwysiadu bum mlynedd ar hugain yn ôl, cynhaliwyd nifer o adolygiadau o'r Gyfarwyddeb ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Daeth y diwygiad diweddaraf i'r Gyfarwyddeb AEA (2014/52 / EU) i rym ar 15 Mai 2014. Roedd yn rhaid i aelod-wladwriaethau fod yn ddarostyngedig i'r

rheolau hyn o 16 Mai, 2017 ymlaen fan bellaf, ac yng Nghymru roedd *Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017* yn rhoi'r Gyfarwyddeb ar waith.

Nod diwygiadau'r Comisiwn Ewropeaidd, a drafodwyd gan Senedd Ewrop a'r Cyngor Gweinidogion ac a gytunwyd ganddynt, yw symleiddio'r rheolau ar gyfer asesu effeithiau posibl prosiectau ar yr amgylchedd. Yn unol â'r ymgyrch dros reoleiddio fwy craff, ei nod yw lleihau baich gweinyddol. Ei nod hefyd yw gwella lefel y warchodaeth amgylcheddol, gyda'r bwriad o wneud penderfyniadau busnes ar fuddsoddiadau cyhoeddus a phreifat yn fwy cynaliadwy yn y tymor hwy. Mae'r dull newydd yn talu mwy o sylw i fygythiadau a heriau sydd wedi dod i'r amlwg ers i'r rheolau gwreiddiol ddod i rym, a rhoddir rhagor o sylw i feysydd fel effeithlonrwydd adnoddau, newid yn yr hinsawdd ac atal trychinebau, y dywedir a gaiff eu hadlewyrchu'n well yn y broses asesu.

# 8. Ffynonellau allweddol

## Llywodraeth Cymru

Mae **adran Cynllunio** gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- **Polisi Cynllunio**
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 11/99 - Asesu Effeithiau Amgylcheddol, 1999

## Deddfwriaeth Allweddol

***Cyfarwyddebau'r UE 2011/92 / UE*** a ***2014/52 / UE***

***Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;***

***Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017***

## Y Comisiwn Ewropeaidd

**Comisiwn Ewropeaidd: Asesiad Effaith Amgylcheddol**;

## Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru** sy'n helpu unigolion a chymunedau **cymwys** i gymryd rhan fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig gwasanaethau cynghori, gan gynnwys llinell gymorth.

## Y Porth Cynllunio

Y **Porth Cynllunio** yw adnodd rheoliadau cynllunio ac adeiladu Llywodraeth y DU. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru, er bod peth o'r cynnwys yn berthnasol i Loegr yn unig.

## Y Gwasanaeth Ymchwil

Mae papurau briffio eraill a luniwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ynghylch cynllunio ar gael ar ein gwefan: **Y Gwasanaeth Ymchwil**

# Trosolwg o ddisgrifiadau o ddatblygiadau Atodlen 1

Mae'r canlynol yn drosolwg o ddatblygiadau Atodlen 1.Gellir dod o hyd i ddisgrifiadau llawn o ddatblygiadau yn Atodlen 1 i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017.

1.Purfeydd olew crai;

2. Gorsafoedd ynni niwclear ac ynni thermol ac adweithyddion eraill;

3.Gosodiadau ar gyfer ailbrosesu tanwydd niwclear a ailbelydrwyd;

4.Gweithfeydd integredig ar gyfer mwyndoddi dur a haearn bwrw yn y lle cyntaf, a gosodiadau ar gyfer cynhyrchu metelau crai anfferus;

5.Gosodiadau ar gyfer tynnu, prosesu a thrawsnewid asbestos a chynhyrchion sy'n cynnwys asbestos;

6.Gosodiadau cemegol integredig;

7.Adeiladu rheilffyrdd ar gyfer teithiau pell i drenau, meysydd awyr â rhedfeydd dros 2,100 metr, traffyrdd a ffyrdd cyflym, ffordd newydd sydd â phedair lôn neu fwy;

8.Dyfrffyrdd mewndirol a phorthladdoedd sy'n ddigon mawr i longau dros 1,350 tunnell; porthladdoedd masnachu, pierau a phorthladdoedd allanol;

9.Gosodiadau gwaredu gwastraff ar gyfer gwastraff i'w losgi, ei drin â chemegolion, neu wastraff peryglus ar gyfer safleoedd tirlenwi;

10. Gosodiadau gwaredu gwastraff ar gyfer gwastraff i'w losgi, ei drin â chemegolion, neu wastraff nad yw'n beryglus ar gyfer safleoedd tirlenwi (lle i dros 100 tunnell y dydd);

11.Alldynnu dŵr o'r ddaear neu gynlluniau i ail-lenwi dŵr o'r ddaear mewn modd artiffisial;

12.Gwaith o drosglwyddo adnoddau dŵr, ac eithrio dŵr yfed pibellog, rhwng basnau afonydd;

13.Gweithfeydd trin dŵr gwastraff;

14.Alldynnu petroliwm a nwy naturiol at ddibenion masnachol;

15.Argaeau a gosodiadau eraill a gynlluniwyd i atal dŵr neu ei storio'n barhaol;

16.Piblinellau ar gyfer trosglwyddo nwy, olew neu gemegolion;

17.Gosodiadau ar gyfer magu dofednod neu foch mewn modd dwys;

18.Gweithfeydd diwydiannol ar gyfer cynhyrchu mwydion coed neu ddeunydd ffibraidd tebyg; cynhyrchu papur a chardfwrdd;

19. Chwareli a mwyngloddio brig; a

20.Gosodiadau ar gyfer storio petroliwm, cynnyrch petrogemegol neu gemegol.

21. Safleoedd storio yn unol â Chyfarwyddeb 2009/31 / EC ar storio carbon deuocsid yn ddaearegol;

22. Gosodiadau ar gyfer dal ffrydiau carbon deuocsid at ddibenion ceisio storio'n ddaearegol yn unol â Chyfarwyddeb 2009/31 / EC.

23. Unrhyw newid i ddatblygiad a restrir yn yr Atodlen hon neu ymestyniad iddo.